Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



# Cynllun Gweithredu Adfer Natur 2023–2026

## Adroddiad Monitro Adran 6

This document is also available in English

www.tancgc.gov.uk

# Adran 1 – Cyflwyniad a Chyd-destun

**Dros y 3 blynedd diwethaf, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) wedi cymryd camau bras i wella bioamrywiaeth a chreu cynefinoedd ar ei dir, yn unol â'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gofynion Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.**



Mae'r Ddeddf yn cyflawni yn erbyn ymrwymiad y llywodraeth i roi'r ddeddfwriaeth angenrheidiol ar waith i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd mwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig, ac mae'n amlygu ymrwymiad y Llywodraeth i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Daeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i rym ym mis Mawrth 2016, ac mae hi'n cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Llywodraeth Cymru 2015.

Cyflwynwyd Dyletswydd Adran 6, Rhan 1 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i wella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau Cymru, gan eu bod yn hanfodol i'n lles ni. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. Mae'r ddyletswydd bioamrywiaeth uwch i gydnabod y cysylltiad rhwng bioamrywiaeth a gweithrediad hirdymor ecosystemau.

Cyhoeddodd GTACGC ei Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 3 blynedd cyntaf yn 2020 ar gyfer 2020–2023, yn unol â gofynion Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae gofyniad ar bob corff sector cyhoeddus i gyhoeddi cynllun mewnol yn ogystal ag Adroddiad Monitro bob 3 blynedd er mwyn dangos sut mae'r sefydliad wedi cydymffurfio â Dyletswydd Adran 6 i wella ac annog bioamrywiaeth i'w safle a dylanwadu ar reolaeth a diogelu'r amgylchedd cyfagos.

Er mai dim ond hyn a hyn y mae modd ei wneud ar dir y Gwasanaeth, mae datblygu a gwella mannau gwyrdd a bioamrywiaeth ar draws Gorsafoedd Tân canolbarth a gorllewin Cymru yn un o'r agweddau allweddol ar Weledigaeth y Gwasanaeth – Darparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru. Mae'r ymrwymiad hwn hefyd wedi'i gynnwys yng Nghynllun Rheoli Risg Cymunedol Gwasanaeth 2040, Amcan 7.

Bydd yr Adroddiad Monitro hwn yn amlinellu sut mae GTACGC wedi gweithio tuag at amcanion Llywodraeth Cymru o fewn ei ail Gynllun Gweithredu Adfer Natur 2023–26, a'n hamcanion ein hunain o fewn arfer swyddogaethau'r Gwasanaeth Tân. Bydd yr Adroddiad Monitro yn cael ei gyhoeddi yn Haf 2026, ochr yn ochr â Chynllun Gweithredu Adfer Natur nesaf y Gwasanaeth ar gyfer 2026–29.

# Adran 2 – Uchafbwyntiau, Canlyniadau a Materion Allweddol

Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud i wireddu'r amcanion dros y 3 blynedd diwethaf, yn unol â Dyletswydd Adran 6. Mae'r Adroddiad Monitro hwn yn nodi'r cynnydd tuag at amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur 2023–26 y Gwasanaeth , ac mae wedi'i amlinellu isod o dan amcan perthnasol Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru.

## Amcan Llywodraeth Cymru 1

**Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth ymwreiddio yn y broses benderfynu ar bob lefel**

Cymerwyd cam sylweddol tuag at gynaliadwyedd amgylcheddol a gwella ymwybyddiaeth yn y maes pan gyhoeddwyd Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040 y Gwasanaeth yn 2023. Roedd hwn yn ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol yn y gweithgareddau a'r prosesau dyddiol a wnawn wrth gyflawni gweithgareddau'r Gwasanaeth Tân. Roedd y Cynllun yn cynnwys 8 amcan i weithio tuag atynt erbyn 2040, ac o fewn yr 8 Amcan roedd thema benodol ar gyfer yr amgylchedd, sef: **Amcan 7 – Byddwn yn gweithio mewn ffordd sy'n ystyriol o'r amgylchedd ac yn gynaliadwy**. Mae aelod o'r Dîm Arweinyddiaeth Weithredol y Gwasanaeth yn cadeirio pob un o'r 8 Amcan, ac mae'r cynnydd a'r llywodraethiant cyffredinol yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Cyflenwi CRhRC sy'n cynnwys aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth (SLT). O fewn Amcan 7, amlinellir nifer o gamau gweithredu sy'n cyd-fynd â Dyletswydd Adran 6 a tharged sector cyhoeddus Llywodraeth Cymru o sero net erbyn 2030.

O fewn Amcan 3 a 5 CRhRC y Gwasanaeth oedd gofyniad i adolygu a thargedu strategaethau atal a diogelu o fewn cymunedau. Mae ein prosiectau ieuenctid yn un o'n ffyrdd o wneud hyn, maen nhw'n darparu negeseuon diogelwch ac addysg allweddol i blant a phobl ifanc canolbarth a gorllewin Cymru.

Mae'r cynlluniau'n cynnwys defnyddio addysg newid ymddygiad i dargedu'r cenedlaethau iau o weithwyr gwledig i ddychwelyd at arferion gwaith sy'n fwy diogel i bob defnyddiwr cefn gwlad ac i'r amgylchedd.

O fewn cylch gwaith Diogelwch Cymunedol a'r Tîm Lleihau Tanau Bwriadol, mae GTACGC yn ymgymryd ag ystod o wasanaethau sy'n gwella bioamrywiaeth yng Nghymru gyda'r nod o leihau'r risg o dân yn yr amgylchedd lleol, gwneud lleoedd mwy diogel i fyw, gweithio a gwella a diogelu bioamrywiaeth leol.

Mae'r Tîm yn gweithio gyda Heddlu De Cymru a Heddlu Dyfed Powys i frwydro yn erbyn ymddygiadau gwrthgymdeithasol a chyfeirio pobl ifanc at gynlluniau ymyrraeth gynnar. Maen nhw'n cynnig cefnogaeth, addysg ac arweiniad i ysgolion, busnesau, y gymuned ffermio a thirfeddianwyr mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, llosgi bwriadol o fewn rheoli tir, achub anifeiliaid, mesur tymheredd byrnau, cyngor atal tân ar ffermydd, cynlluniau rheoli llosgiadau ar gyfer llosgi o fewn y rheoliadau llosgi grug a glaswellt, yn ogystal â hyrwyddo ymyriadau ac ymgyrchoedd. Rydym yn rhoi taflenni tanau gwyllt i gymunedau sydd wedi

cael eu heffeithio gan danau gwyllt, ac mae'r cyngor yn eu hysbysu o'r arferion gorau a allai eu diogelu.

Mae neges y Timau Lleihau a Bwriadol yn syml "Mae cynnau tanau bwriadol yn drosedd" ac maen nhw wedi creu arwyddion i'w gosod mewn ardaloedd risg uchel pan fydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn cael ei nodi.

Yn 2023, lansiodd Siarter Tanau Gwyllt Cymru ddogfen strategol a oedd yn amlinellu dull Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru o reoli risg tanau gwyllt a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a chymunedau. Nod y siarter yw dod â Llywodraeth Cymru, y Gwasanaethau Brys, sefydliadau'r sector cyhoeddus a thirfeddianwyr at ei gilydd i reoli a datblygu tirwedd a rheoli tanau gwyllt, coedwigaeth a bywoliaethau, gyda phwyslais ar weithredu amrywiaeth o dechnegau rheoli i leihau effaith tanau gwyllt ar gymunedau a thirwedd Cymru.

Mae'r Ymgyrch Dawns Glaw yn dasglu amlasiantaethol sydd â chefnogaeth asiantaethau allweddol yng Nghymru, a'i nod yw lleihau a dileu, pan fo'n bosibl, effaith tanau glaswellt ledled Cymru. Y nod yw datblygu ymateb cydweithredol ac mewn partneriaeth i'r broblem tanau glaswellt, ac i lunio rhaglen weithredu gydgysylltiedig sy'n seiliedig ar atal, addysgu ac ymateb, ac yn ystyried y bygythiadau a ddaw o ddigwyddiadau tywydd eithafol a newid yn yr hinsawdd.

Trwy gydol 2025/26, fe wnaeth yr Adran CRhRC gynnal dau ddigwyddiad Ystafell Gytbwys i ymgysylltu â Rhanddeiliaid, un ar bwnc Tanau Gwyllt ym mis Awst 2025 a'r llall ar Lifogydd ym mis Chwefror 2026. Cafwyd presenoldeb da yn y rhain, a chynhaliwyd gweithdai hynod gynhyrchiol dros 3 diwrnod i annog mewnbwn i feysydd gwella, codi ymwybyddiaeth a chydweithio. Cyflwynwyd canlyniadau'r gweithdai i Dim Arweinyddol Weithredol y Gwasanaeth er cymeradwyaeth ac i weithio tuag atynt.

Yn 2022/23, datblygwyd pecyn e-ddysgu pwrpasol i hyfforddi ymwybyddiaeth amgylcheddol er mwyn gwella ymwybyddiaeth yr holl staff o gadwraeth dŵr, ynni, bioamrywiaeth, gwastraff ac allyriadau. Cyflwynwyd y pecyn hwn i staff dros gyfnod o 3 blynedd, a daeth i ben yn 2025. Bydd pecyn hyfforddi newydd yn cael ei ddatblygu i barhau gyda'r nod o wella ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol.

Mae'r Gwasanaeth yn cynhyrchu Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol sy'n tynnu sylw at ystadegau amgylcheddol o ran allyriadau Cwmpas 1, 2 a 3 o'r ystâd, y fflyd a'r gadwyn gyflenwi. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi throsolwg o'r prosiectau y mae'r Gwasanaeth wedi'u cyflawni, gan gynnwys datblygu seilwaith gwyrdd, hyfforddiant amgylcheddol a chyfleoedd cydweithredu. Mae'r Adroddiad llawn i'w gael ar wefan allanol y Gwasanaeth.



## Amcan Llywodraeth Cymru 2

**Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well**

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae GTACGC wedi gweithio'n agos gyda'r Tîm Cynnal a Chadw Tiroedd i sicrhau bod mannau gwyrdd y Gwasanaeth yn cael eu cynnal a'u datblygu i annog bioamrywiaeth ac i greu cynefinoedd lle bo hynny'n bosibl. Mae hyn yn cynnwys cyfundrefnau torri, hau ardaloedd o flodau gwyllt i annog pryfed peillio ac i wella llwybrau gwenyn, gosod blychau adar a blychau infertebratau a sicrhau nad oes plaladdwyr yn cael eu defnyddio ar y tir.

Gosodwyd dau flwch nythu i wennoliaid duon yn un o'r adeiladau mawr ym Mhencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin, ynghyd â dyfais sain i annog adar i'r safle. Mae ardal o flodau gwyllt wedi'i sefydlu y tu ôl i Bencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin, ac mae i'w weld yn y llun isod.

Os oes angen, rydym yn ymgynghori â chontractwyr ac ecolegwyr allanol i gynnal arolygon rhywogaethau cyn dechrau unrhyw waith. Mae hyn yn sicrhau na fydd unrhyw ddifrod diangen neu niweidiol yn cael ei wneud i fywyd gwyllt ar lefel leol.

Pan fo gwaith sylweddol i dorri coed neu ganghennau unigol ar leoliadau'r Gwasanaeth, byddan nhw'n cael eu torri neu eu troi'n sglodion ar y safle a'u gadael yn y fan a'r lle i fod yn gynefinoedd i bryfed. Rydym wedi sefydlu cynefinoedd pren marw mwy gan ddefnyddio coed a gwympodd mewn stormydd, gan ddarparu gorchudd i ficrogynefinoedd.

O fewn Map Ffordd Lleihau Carbon 2030 y Gwasanaeth, a gyhoeddwyd yn 2024, ceir nifer o ymrwymiadau tymor byr, canolig a hirdymor gyda'r nod o leihau allyriadau carbon fflyd y Gwasanaeth a gwella ansawdd aer. Mae GTACGC wedi cyflwyno fflyd o Gerbydau Allyriadau Isel Iawn gyda'r nod o wella ansawdd aer lleol, ac mae nifer o gerbydau ymateb yn defnyddio HVO yn lle diesel, gan leihau allyriadau o'r fflyd yn sylweddol.

Er mwyn gwella ansawdd aer ar lefel leol, ac i leihau'r ddibyniaeth ar danwydd ffosil, mae technolegau ynni adnewyddadwy cynaliadwy wedi'u hystyried mewn safleoedd mwy, e.e. paneli solar ffotofoltäig a defnyddio HVO yn hytrach nag olew i wresogi.





## Amcan Llywodraeth Cymru 3

**Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd (Ar ein tir ein hunain)**

Ers 2024, mae'r Gwasanaeth wedi gwneud sawl cais llwyddiannus am becynnau datblygu gerddi gan Lleoedd Lleol ar gyfer Natur mewn cydweithrediad â Cadwch Gymru'n Daclus. Mae mannau gwyrdd mewn 9 Gorsaf nad oedden nhw'n cael llawer o ddefnydd wedi elwa o'r cyllid hwn. Datblygwyd ardaloedd croesawgar i bobl eistedd a mwynhau'r ardal, ac annog ystod eang o blanhigion ac anifeiliaid i fannau gwyrdd y Gorsafoedd. Mae'r amrywiaeth o becynnau wedi cynnwys Bywyd Gwyllt, Tyfu Bwyd a phecyn gardd Mini.

Mae Gorsaf Dân Hwlffordd wedi cael tipyn o hwyl gyda'u gardd Les newydd, gan ddod i frig eu categori yng ngwobrau 'Mwy Na Dim ond Tanau' y Gwasanaeth. Yn yr un flwyddyn, fe'i henwebwyd yng nghystadleuaeth Blodeuo Gyda'r RHS – Cymru, adran Lefel 3 – adran Advancing yn y categori 'It's Your Neighbourhood' yn 2025.

Mae lluniau o rai o'r gerddi y mae'r Gorsafoedd Tân wedi'u datblygu dros y 3 mlynedd diwethaf i'w gweld isod, gan gynnwys Castell-nedd, Hwlffordd, Port Talbot, Glyn-nedd a'r Trallwng.











Mae Gorsaf Dân y Trallwng wedi defnyddio'r tir o flaen yr Orsaf i feithrin cysylltiadau â'r gymuned trwy greu gardd tyfu bwyd . Gwahoddwyd trigolion lleol i'r agoriad swyddogol ar 12 Chwefror 2026. Roedd y digwyddiad yn gyfle i aelodau o'r cyhoedd gwrdd â Chriw'r Orsaf, dysgu mwy am y prosiect a gweld sut y bydd y man cwbl hygyrch o fudd i'r Gwasanaeth a'r gymuned ehangach. Mae dolen i'r erthygl gyhoeddedig i'w chael isod:

**Gardd Gymunedol yn agor yn swyddogol yng Ngorsaf Dân y Trallwng**

Yn 2025, cydweithiodd GTACGC â'r Tîm Bioamrywiaeth yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot i ddatblygu prosiect seilwaith gwyrdd mewn dwy Orsaf yn Rhanbarth y De, sef rhai y Cymer a Dyffryn Aman. Defnyddiwyd y prosiect hwn i annog bioamrywiaeth yn y Gorsafoedd drwy ddatblygu seilwaith to gwyrdd, gan gynnwys llochesi biniau, siediau beiciau a swyddfeydd â tho gwyrdd, fel y gwelir yn y llun isod yng Ngorsaf Dân y Cymer.

Codwyd arwyddion lle bo'n bosibl i godi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ac addysgu'r defnyddwyr.

Mae'r prif weithdy trafnidiaeth yn Dafen wedi ymgorffori'r defnydd o system ddraenio gynaliadwy (SuDS). Mae SuDS yn arfer rheoli sy'n anelu at leihau effeithiau negyddol dŵr wyneb mewn ardaloedd trefol. Maen nhw wedi'u cynllunio i reoli dŵr wyneb mewn ffyrdd naturiol, gan ddynwared y cylch dŵr yn ogystal â chreu manteision amgylcheddol a rheoli llifogydd.

Mae gorsafoedd lleol yn cynnal diwrnodau agored er mwyn annog ymgysylltiad â'r gymuned ac i dynnu sylw at yr hyn y mae'r Gwasanaeth yn ei ddarparu i'w cymunedau. Mae'r rhain yn gyfleoedd gwych i godi ymwybyddiaeth o risgiau sy'n gysylltiedig â diogelwch tân a chymunedol, ac mae datblygu ardaloedd o'r Gorsafoedd fel hyn yn eu gwneud yn fwy croesawgar ar ddiwrnodau ymgysylltu â'r gymuned.






## Amcan Llywodraeth Cymru 4

**Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd**

Mae GTACGC yn awyddus i leihau effaith ddinistriol tân ar gymunedau, cynefinoedd a bioamrywiaeth ar draws canolbarth a gorllewin Cymru.

Mae GTACGC yn blaenoriaethu eu hymrwymiadau amgylcheddol, ac mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael ei gydnabod fel problem wirioneddol. Mae'r Tîm Lleihau Tanau Bwriadol yr Adran Diogelwch Cymunedol yn ystyried effaith tanau gwyllt trwy ddysgu mwy am y cynefinoedd a all ddioddef a sut allwn liniaru'r dirywiad trwy weithio gydag arbenigwyr amgylcheddol a rheolwyr tir. Mae hyn yn golygu ymgysylltu â grwpiau a sefydliadau i hyrwyddo pori cynaliadwy, gwarchod cynefinoedd sensitif, bywyd gwyllt a phlanhigion brodorol, a gweithio gyda chymunedau ffermio.

Mae rhai ffrydiau gwaith allweddol yn cynnwys tanau sbwriel/gwastraff, tipio anghyfreithlon a safleoedd gwastraff anghyfreithlon, llosgi dan reolaeth, gwaith partneriaeth, ymgyrchoedd ac ymyriadau, dadansoddi a rhannu data, ymgysylltu â'r gymuned ac addysg.

Mae'r Tîm yn cynnal Patrolau Tân Gwyllt i gasglu tystiolaeth ac i nodi lleoliadau penodol lle mae'r risg o losgi bwriadol yn uchel, i addysgu ac ymgysylltu â'r gymuned, ac i gydweithio ag asiantaethau partner i nodi pa fesurau atal y gellir eu gweithredu ac ymhle. Gallai hyn gynnwys defnyddio'r peiriant i-cut i greu toriadau tân mewn lleoliadau sydd â risg uchel o danau gwyllt neu ardaloedd sydd ddim o fewn cyrraedd hawdd i beiriannau tân.

Trwy ymgysylltu â phobl ifanc mewn cymunedau mewn ardaloedd risg uchel, mae'r Gwasanaeth yn gobeithio darparu gwell dealltwriaeth o'r hyn y gall y Gwasanaeth ei wneud i atal tanau damweiniol rhag cynnau ac i dynnu sylw at y difrod y gall y tanau hyn ei achosi i'r amgylchedd.

Gall tanau glaswellt gael effaith negyddol enfawr ar yr amgylchedd a ac ar natur, yn ogystal â'u heffaith ar iechyd y cyhoedd, yr economi a diogelwch cymunedol. Er hyn, gallant gael effaith bositif pan fydd llosgiadau achlysurol yn cael eu cynllunio'n ofalus a'u rheoli'n gywir. Gall hyn fod o fudd i amaethyddiaeth a chadwraeth bywyd gwyllt. Mae llawer o waith yn cael ei wneud i wella ymwybyddiaeth o'r ffenestr llosgi rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth, pan fydd llystyfiant yn llai maethlon a'r tywydd yn oerach a gwlypach, gan ei gwneud hi'n haws rheoli tân a lleihau'r risg iddo losgi allan o reolaeth.



Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn ddull amlasiantaethol o wella ein dealltwriaeth a'n rheolaeth o'r perygl y mae tanau gwyllt yn ei beri i amgylchedd a chymunedau Cymru. Y nod, i'w gyflawni trwy Siarter Tanau Gwyllt Cymru, yn adeiladu ar yr wybodaeth a'r profiad a gafwyd dros y degawd diwethaf gan roi sylw i berygl parhaus newid hinsawdd a gwerth annog cymunedau ac unigolion i gydweithio i amddiffyn yr ardaloedd lle rydym yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â nhw. Mae'r asiantaethau ar Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn cydweithio er mwyn gwella dealltwriaeth o'r hyn y gellir ei wneud i gyfyngu ar nifer y tanau gwyllt ac i leihau'r difrod a ddaw yn ei sgil.

Ymgyrch #DoethiDanauGwyllt Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru er mwyn addysgu unigolion am yr arferion gorau o ran osgoi ac atal tanau gwyllt. 2025 oedd â'r nifer uchaf o ddigwyddiadau tân glaswellt ledled Cymru ers 2018, gan dynnu sylw at duedd bryderus sy'n peryglu pobl, eiddo, adnoddau cymunedol a bywyd gwyllt.

**Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru**
Wales Wildfire Board



Sefydlwyd sawl grŵp aml-asiantaeth drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) sydd wedi caniatáu gweithio mewn partneriaeth a thrafodaeth agored trwy fforymau ym meysydd addasu i'r hinsawdd a gwytnwch yn ogystal â bioamrywiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys grwpiau Partneriaeth Natur Leol, Grwpiau Newid Hinsawdd, Grwpiau Adfer Natur a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus amgylcheddol.

Cyflwynwyd haen bioamrywiaeth ar Derfynell Data Symudol (MDT) ar Beiriannau Tân yn ardaloedd Sir Benfro ac Abertawe i dynnu sylw at feysydd pwysig o fewn y siroedd. Bydd bygythiadau i fioamrywiaeth a rhywogaethau pwysig yn amrywio o ranbarth i ranbarth, felly mae cydweithio yn sicrhau bod yr ardaloedd risg uchel wedi'u cynnwys o fewn yr haen bioamrywiaeth. Mae'r risgiau sylweddol yn cynnwys

- **Lleoliad coed meryw prin**
- **Lleoliad cynefinoedd lle mae gwiberod yn gaeafgysgu**
- **Ardaloedd lle mae'r madfall cribog mawr yn magu**
- **Lleoliadau clwydo ystlumod**
- **Ardaloedd lle mae britheg y gors yn magu**

Mae'r tabl isod yn dangos mai dim pedair o Orsafoedd ystâd y Gwasanaeth sydd â dros 40% o fannau gwyrdd ar gael i'w datblygu. Mae personél y gorsafoedd wedi manteisio ar hyn a lle bo'n bosibl wedi datblygu ardaloedd i annog bioamrywiaeth, waeth pa mor fychan.

| Canran y Mannau Gwyrdd | 5% neu lai o fannau gwyrdd | 5-39% o fannau gwyrdd | 40% o fannau gwyrdd |
|---|---|---|---|
| Nifer y Gorsafoedd | 37 | 16 | 4 |

Mae GTACGC wedi datblygu gerddi yn 11 o'r 58 Gorsaf Dân yn ei ardal. Gan mai dim ond 20 o safleoedd sydd â mwy 5% yn fannau gwyrdd, mae hwn yn gam enfawr i annog bioamrywiaeth yn y Gorsafoedd yn ogystal â chyrraedd capasiti datblygu prosiectau ar fannau gwyrdd sydd ar gael ar Orsafoedd.

Mae Tîm Cyfathrebu'r Gwasanaethau yn defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddigwyddiadau sylweddol a negeseuon diogelwch yn ystod tywydd eithafol, gan gynnwys llifogydd a thanau gwyllt. Caiff y llwyfannau hyn eu defnyddio i ddathlu cyflawniadau hefyd, e.e. gerddi cymunedol a gwobrau.

## Amcan Llywodraeth Cymru 5

**Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro (Ar eu tir eu hunain)**

Mae GTACGC yn gweithio tuag at gael Safon Rheoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd 2016, sy'n sicrhau gwelliant amgylcheddol parhaus trwy gydol gweithgareddau a chyflenwi Gwasanaeth. Ym mis Chwefror 2026, llwyddodd y Gwasanaeth gynnal achrediad Lefel 5 am y 12fed flwyddyn. Tynnu sylw at ymrwymiad y Gwasanaethau i leihau ei effaith ar yr amgylchedd a sicrhau gwelliant amgylcheddol parhaus. Mae'r achrediad yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol ac yn sicrhau bod effeithiau gwaith cyflenwi'r Gwasanaeth yn parhau i fod yn isel.

Fel rhan o'r Safon, rhaid i'r Gwasanaeth gyhoeddi Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol sy'n tynnu sylw at brosiectau amgylcheddol a gwaith monitro mewn meysydd, gan gynnwys allyriadau carbon, gwastraff, tanwydd a dŵr. Mae'r data blynyddol hefyd yn cael ei ddefnyddio i roi adroddiadau Lywodraeth Cymru ar ofynion adrodd Sero Net ar gyfer holl sefydliadau'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

Mae Archwiliadau Gorsafoedd yn cael eu cynnal ar gylch 4 blynedd, gyda safleoedd risg uchel, megis gweithdai, yn cael eu cynnal yn amlach. Cynhelir archwiliadau ar ystod o agweddau i sicrhau cydymffurfiaeth a gwelliant ym mhob maes o ddarparu Gwasanaethau. Fel rhan o'r Archwiliad Amgylcheddol, mae peryglon amgylcheddol a bioamrywiaeth yn cael eu monitro a'u hystyried, ac mae meysydd gwella yn cael eu nodi, megis prosiectau cadwraeth lle mae mannau gwyrdd yn caniatáu hynny.

Mae posteri ymwybyddiaeth a gwybodaeth yn cael eu dosbarthu i Orsafoedd ar draws yr ardal Wasanaeth i dynnu sylw at ffigurau defnydd o ran gwastraff a chyfleustodau, gyda'r nod o ddechrau trafodaethau ar lefel leol i annog gostyngiad yn y ffigurau.

Mae'r Gwasanaeth wedi cynnal dau ddigwyddiad Ystafell Gytbwys amlasiantaethol ar y thema Tanau Gwyllt a Llifogydd. Yn sgil trafodaeth fanwl yn erbyn meini prawf beirniadol, cafodd opsiynau datblygu cychwynnol eu cydgrynhoi a'u cysylltu â themâu. Bydd y canlyniadau yn cael eu mireinio a'u cymeradwyo ar lefel y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol cyn eu cyhoeddi a'u gweithredu.

Daeth y gweithdai Ystafell Gytbwys ag ystod eang o staff gweithredol ac adrannol o bob rhan o'r Gwasanaeth at ei gilydd, ynghyd â chynrychiolwyr o Undebau a phartneriaid allanol, gan gynnwys Gwylwyr y Glannau, Cyfoeth Naturiol Cymru, Achub Mynydd, Achub Allgymorth, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac aelodau o Awdurdodau Lleol o bob rhan o ganolbarth a gorllewin Cymru. Roedd y dull hwn yn sicrhau amgylchedd cynhwysol lle gallai pob llais gael ei glywed yn gyfartal yn y gweithdai. Dyma rai themâu a ddaeth i'r amlwg o'r broses:

- **Atal**
- **Cydweithio a phartneriaethau**
- **Gwell gallu arbenigol a chysondeb**
- **Dysgu a gwelliant parhaus**

Er mwyn galluogi'r Gwasanaeth i fonitro a rheoli ei ddefnydd o ddŵr mewn digwyddiadau, mae dyfeisiau monitro mesuryddion llif wedi'u gosod ar nifer o beiriannau tân o fewn y Gwasanaeth. Mae'r dyfeisiau hyn yn rhoi data ar allbwn y pympiau, gan fesur cyfaint y dŵr sy'n cael ei ddefnyddio mewn litrau y funud, yn ystod digwyddiadau gweithredol.

Yn ystod 2023/24, gweithiodd GTACGC mewn partneriaeth â Dŵr Cymru, CNC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i dreialu'r defnydd o ddŵr wedi'i drin â UV fel dewis amgen i ffynonellau eraill o ddŵr, e.e. dŵr yfed, mewn digwyddiadau

diffodd tân brys. Y gobaith yw y bydd hyn yn lleihau'r ddibyniaeth ar ddŵr glân yn ystod achlysuron o'r fath a fydd, yn ei dro, yn lleihau unrhyw broblemau yn y cymunedau lleol, e.e. pwysedd dŵr isel. Mae'r gwaith o fonitro'r Prosiectau yn parhau.

Mae uned Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol (CFBT) y Gwasanaeth wedi'i hadeiladu yng nghanolfan hyfforddi Earlswood, sy'n caniatáu hyfforddiant drwy gydol y flwyddyn yn ogystal â system ar gyfer casglu a gwaredu gronynnau. Mae'r defnydd ohono yn y camau cynnar, a bydd yn cael ei fonitro dros y blynyddoedd i ddod.

## Amcan Llywodraeth Cymru 6

**Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion.**

Mae GTACGC wedi ymrwymo i Safon Rheoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd (2016). Mae'r Safon yn cael ei defnyddio i archwilio system, polisïau, gweithdrefnau ac arferion rheoli amgylcheddol y Gwasanaethau sy'n galluogi'r Gwasanaeth i nodi a rheoli effeithiau amgylcheddol ein gweithgareddau a'n gweithrediadau. Mae'r Safon hefyd yn helpu i sicrhau bod y Gwasanaeth yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a gofynion amgylcheddol eraill ac yn sicrhau gwelliant amgylcheddol parhaus.

Er mwyn monitro effaith amgylcheddol a phrosiectau'r Gwasanaeth, cyhoeddir Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol bob haf sy'n cofnodi ystadegau, cyflawniadau ac yn cefnogi ac yn ategu amcanion Llywodraeth Cymru a Strategol.

Mae'r Gwasanaeth wedi amlinellu ei ymrwymiadau i leihau allyriadau a gweithio i wella bioamrywiaeth ar leoliadau'r Gwasanaeth o fewn Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040 a gyhoeddwyd gyntaf yn 2023. O fewn wyth ymrwymiad y Cynllun, mae Amcan 7 yn amlygu uchelgais amgylcheddol y Gwasanaeth i weithio mewn 'ffordd amgylcheddol gyfeillgar a chynaliadwy.' Mae hyn yn cael ei weithredu a'i fonitro drwy'r gweithgorau'r CRhRC a'r Bwrdd Cyflawni. Mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) llawn i'w weld yma.

Cyhoeddwyd Map Ffordd Lleihau Carbon y Gwasanaeth 2030 yn Haf 2030. Roedd yn amlinellu'r hyn y mae'r Gwasanaeth yn ymdrechu i'w wneud i gyrraedd targed Sero Net Llywodraeth Cymru erbyn 2024. Dyma brif feysydd y cynllun o ran ymdrechion i ddatgarboneiddio'r Gwasanaeth: trafnidiaeth a theithio cynaliadwy; rheoli adeiladau a chynnal a chadw tiroedd; y broses gaffael a'r gadwyn gyflenwi; gwastraff ac ailgylchu; a phrosesau gweithredol, hyfforddiant a newid ymddygiad.

Mae'r Grŵp Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd yn cwrdd bob chwarter i sicrhau cynnydd mewn targedau amgylcheddol ac yn adrodd

ar Amcan 7 CRhRC, Ein Cyfarfodydd Amgylcheddol. Mae rhanddeiliaid perthnasol yn eistedd yn y ddau gyfarfod, sy'n cynnwys y Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth.

Yn unol â gofynion adrodd Sero Net Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i holl sefydliadau sector cyhoeddus Cymru gwblhau a chyflwyno taenlen fonitro flynyddol, sy'n gofyn am ffigurau ym meysydd trydan, tanwydd, fflyd, teithio, gwastraff a'r gadwyn gyflenwi.

## Beth fu'r rhwystrau a beth fydd yn wahanol ar gyfer y Cynllun Gweithredu Adfer Natur 3 blynedd nesaf?

Mae pwysau cynyddol ar y sector cyhoeddus i gynhyrchu canlyniadau gyda chyllideb gyfyngedig, gan arwain at ddibyniaeth fawr ar geisiadau cyllid llwyddiannus i alluogi prosiectau y tu allan i ddarparu gwasanaethau hanfodol.

Ychydig iawn o dir sydd ym meddiant y Gwasanaeth lle gellir gwneud gwelliannau sylweddol i fioamrywiaeth a chynefinoedd.

Er gwaethaf hyn, bydd GTACGC yn parhau i adeiladu partneriaethau, cydweithrediadau a rhwydweithiau ledled canolbarth a gorllewin Cymru.

# Adran 3 – Casgliad ac Adolygiad o Ddyletswydd Adran 6

**Mae GTACGC wedi ymrwymo i weithio tuag at yr amcanion a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur mewnol y Gwasanaeth a gofynion deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.**



Mae'r Adroddiad Monitro hwn yn tynnu sylw at y camau sylweddol y mae'r Gwasanaeth wedi'u cymryd i annog gweithredu dros fioamrywiaeth ledled yr ystâd. Mae'r gwelliant parhaus ar Orsafoedd i gynyddu ymwybyddiaeth ac i herio mwy i annog bioamrywiaeth ar dir y Gwasanaeth Tân.

Mae bioamrywiaeth yn parhau i fod ar yr Agenda yng Nghyfarfodydd y Grŵp Cynaliadwyedd Gwasanaeth a'r Amgylchedd yn ogystal ag Amcan 7 CRhRC Ein Hamgylchedd, a chyfarfodydd y Bwrdd cyflawni. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol ac archwiliad allanol o'r System Reoli Amgylcheddol blynyddol.

Bydd Cynllun Gweithredu Adfer Natur 2026–29 wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyhoeddi yn Haf 2026 yn unol ag amserlen adrodd y flwyddyn ariannol a bydd ar gael ar wefan allanol GTACGC.





# Cyfryngau Cymdeithasol

**Rydym yn eich annog i gadw llygad ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol ar gyfer diweddariadau**

**HOFFI** DILYN **RHANNU**

**LIKE** FOLLOW **SHARE**

**Ein Negeseuon Diogelwch**

Our Safety Messages

JR21610

# Cynllun Gweithredu Adfer Natur 2023–2026

## Adroddiad Monitro Adran 6

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales Fire and Rescue Service

HOFFI DILYN RHANNU

LIKE FOLLOW SHARE

**Ein Negeseuon Diogelwch**

Our Safety Messages

**EIN GWELEDIGAETH**

I ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.

**OUR VISION**

To deliver the best possible service for the communities of Mid and West Wales.

This document is also available in English

www.tancgc.gov.uk